

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

11 Medi 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir rhoi mesurau iechyd y cyhoedd ar waith er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau, yn benodol, yn cyfyngu ar nifer y bobl all ymgynnull o dan do ac yn ei gwneud yn ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb o fewn mangreoedd agored, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau. Bydd y cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (parchu bywyd teuluol a phreifat); Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwbybod a chrefydd); Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 14 (gwahardd camwahaniaethu). I'r graddau y mae'r gofynion sy'n cael eu gosod gan y Rheoliadau yn cyffwrdd neu'n ymyrryd a'r hawliau

hynny, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyfiawnhad i'r ymyrraeth honno gan mai'r nod dilys yw ymateb i fygythiad yr achosion cynyddol o'r coronafeirws ar draws Cymru i iechyd y cyhoedd, a bod yr ymyrraeth yn gymesur a'r nod hwnnw. Mae'r cyfyngiad ar ymgynnull dan do yn ymateb i fygythiadau i iechyd, a'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn mangreoedd agored yn ddarostyngedig i nifer o esemptiadau ac eithriadau, gan gynnwys mewn perthynas â phlant o dan 11 oed, anallu i wisgo gorchuddion yn sgil salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu fel arall o ganlyniad i anawsterau cyfathrebu.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn:

- cyfyngu ar nifer y bobl all gyfarfod yn gymdeithasol o dan do. Bydd hyn yn cael ei gyfyngu i ddim mwy na 6 o bobl o aelwyd estynedig (ac eithrio unrhyw blentyn o dan 11 oed). Mae'r cyfyngiad hwn yn gymwys i bob lleoliad dan do, gan gynnwys cartrefi, bwytai a thafarndai.
- ei gwneud yn ofynnol i bobl wisgo gorchuddion wyneb mewn siopau neu mewn mannau cyhoeddus penodol eraill sydd o dan do ac mewn hybiau trafndiaeth. Mae esemptiad i blant o dan 11, ac i unrhyw un sydd mewn mangre sy'n gwerthu bwyd a diod diod i'w fwyta neu ei yfed yno. (Lle bo rhan yn unig o'r fangre ar gael i fwyta neu yfed, bydd yn parhau i fod yn ofynnol gwisgo gorchudd wyneb mewn rhannau eraill o'r fangre). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu nad oes rhaid i berson wisgo gorchudd pan fo gan y person esgus rhesymol (c mae esiamplau wedi'u rhestru). Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad cyfreithiol sydd eisoes yn gymwys (ar draws Cymru) i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Yn gynharach yr wythnos hon, fe gafodd y prif Reoliadau eu diwygio i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas â Bwrdeistref Sirol Caerffili, a ddynodwyd fel 'ardal diogelu iechyd leol'. Roedd hyn yn cynnwys y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb. Gan fod y gofyniad hwn yn cael ei ehangu ar draws Cymru gyfan, mae'r prif Reoliadau yn cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn i ddileu'r gofyniad penodol am orchuddion wyneb o ddarpariaethau ardal diogelu iechyd leol.

- gwneud diwygiad pellach i'r darpariaethau ynghylch ardal diogelu iechyd leol mewn perthynas â'r gofyniad i weithio o'r cartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny. O 8 Medi ymlaen, roedd hyn yn gymwys i bobl sy'n byw yn yr ardal diogelu iechyd leol, ond nid oedd yn gymwys i bobl sy'n byw y tu allan ond yn gweithio yn yr ardal honno. O 14 Medi ymlaen, ni fydd gan bobl esgus resymol i fynd i mewn i'r ardal i weithio os yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud weithio y tu allan i'r ardal.

Mae newidiadau pellach hefyd i'r prif Reoliadau yn sgil Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020. Mae dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'u dileu o'r prif Reoliadau ac wedi'u ailosod yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

Daw'r Rheoliadau i rym ddechrau 14 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Aseiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Hysbysais Aelodau'r Senedd, mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw, am y bwriad o osod y cyfyngiadau hyn yn y Rheoliadau. Hefyd cynhaliais gynhadledd i'r wasg ac fe gafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang yn y cyfryngau.

6. Aseiad effaith rheoleiddiol ac aseuadau eraill

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fgythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i lunio a bydd yn cael ei gyhoeddi.